Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 19.04.2021

## PWYSIG: Grant Cam 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn cau am 5:00pm yfory, 20 Ebrill 2021

Bydd ceisiadau ar gyfer Cam 2 y Gronfa Adferiad Ddiwylliannol yn cau am 5:00pm yfory, 20 Ebrill 2021. Mae'r cymorth ar gael i sefydliadau fel theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, mannau recordio ac ymarfer, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, archifau, sinemâu annibynnol, lleoliadau comedi a digwyddiadau i gwmpasu effaith barhaus y pandemig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021. Defnyddiwch y Gwiriwr Cymhwysedd nawr i adolygu'r meini prawf cyn gwneud cais, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culturep2/cy

- Bydd gwybodaeth am y cymorth pellach ar gyfer gweithwyr llawrydd ar gael yn y dyfodol agos.

## Canllawiau i dwristiaeth a lletygarwch

Mae canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch i gadw gweithwyr ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19) ar gael yma:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

Wrth i letygarwch awyr agored ailagor yng Nghymru ar 26 Ebrill 2021, gellir cael canllawiau lliniaru lletygarwch awyr agored yn nogfen UK Hospitality Cymru: COVID-19 Secure advice and risk assessments for hospitality businesses. Ewch i:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

I gael rhagor o gyngor, y canllawiau a’r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a’ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

## Pobl yng Nghymru sy’n methu gweithio gartref yn cael eu hannog i ddefnyddio hunan-brofion llif unffordd

Mae’r rheini sy’n methu gweithio gartref yn cael eu hannog i gael pecynnau hunan-brofi dyfeisiau llif unffordd wrth iddynt gael eu cyflwyno ar draws Cymru. Bydd y pecynnau profi cyflym hyn ar gyfer y coronafeirws ar gael i’w casglu o safleoedd profi lleol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried yr opsiwn i allu casglu’r pecynnau profi hyn o leoliadau eraill, yn ogystal â’r opsiwn o’u hanfon yn uniongyrchol i gartrefi pobl. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/pobl-yng-nghymru-syn-methu-gweithio-gartref-yn-cael-eu-hannog-i-ddefnyddio-hunan-brofion-llif

## Llythyr at sylw darparwyr gwasanaethau cysylltiad agos

Mae Dr Frank Atherton Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru, wedi cyhoeddi llythyr at sylw darparwyr gwasanaethau cysylltiad agos ynghylch a chadw amgylchedd diogel rhag Covid i ddiogelu staff a chleientiaid. I ddarllen y llythyr yn ei gyfanrwydd.ewch i:

https://bit.ly/3v2OJ4Z

## Iechyd a diogelwch ar gyfer yr economi gig, gweithwyr asiantaeth a dros dro

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar iechyd a diogelwch ar gyfer yr economi gig, gweithwyr asiantaeth a dros dro. Mae'r economi gig yn tyfu ac mae'r ffyrdd y mae pobl yn gweithio yn newid, felly mae angen i gyflogwyr feddwl yn wahanol am ffyrdd o gadw gweithwyr yn iach a diogel. Ar gyfer y canllawiau cyflogwyr, sy'n cynnwys trosolwg o'r rheswm y dylai cyflogwyr ystyried yr economi gig, gweithwyr asiantaeth a dros dro, ewch i:

https://bit.ly/3glZtHu

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru